


Bryngaerau Llŷn




Safleoedd ar Benrhyn Llŷn



Mae'r ardal hon o harddwch naturiol eithriadol yn gartref nid yn unig i draethau rhyfeddol, clogwyni uchel a bywyd gwyllt, ond mae hefyd yn ardal sy'n gyforiog o hanes a threftadaeth. Mae'r llyfryn yma'n arweiniad addysgol i ymwelwyr â lloc pen bryn Meillionydd, sy'n dyddio o'r Oes Haearn. Mae'n edrych yn fyr hefyd ar gynhanes penrhyn Llŷn, o'r ffatri fwyell Neolithig ar Fynydd y Rhiw, i fryngaerau eraill o'r Oes Haearn, megis Tre'r Ceiri.

Beth yw Meillionydd?

Mae bryngaer Meillionydd ar fryn isel tua 4 milltir o Aberdaron. Lloc cylchfur dwbl ydyw: mae dau glawdd crwn o bridd a cherrig yn derfyn iddo.



O fewn y lloc ceir nifer o dai crwn pren neu garreg a fu'n gartref i sawl grŵp o deuluoedd dros gyfnod o nifer o ganrifoedd. Defnyddid y lloc hefyd ar gyfer achlysuron cymunedol, megis gwyliau a gwleddoedd.

Pam cloddio ym Meillionydd?

Er bod deg safle cylchfur dwbl ar Benrhyn Llŷn, dim ond un arall oedd wedi cael ei gloddio: archwiliwyd safle Castell Odo gan Leslie Alcock yn y 1950au. Mae llociau cylchfur dwbl i'w cael yn bennaf ar benrhyn Llŷn ac maent yn dangos bod gan y cymunedau a oedd yn byw yma yn y mileniwm cyntaf Cyn Crist nodweddion arbennig iawn.

Beth rydym wedi dod o hyd iddo?

Fe wnaeth y cloddio ym Meillionydd gan Brifysgol Bangor ddechrau yng Ngorffennaf 2010. Rydym wedi dangos bod yna ddau brif gyfnod i'r safle. Yn gyntaf roedd yna loc crwn wedi'i wneud gyda ffens bren a ffos, gyda thai crwn pren ynddo, yn dyddio o ddiwedd yr Oes Efydd i ddechrau'r Oes Haearn (c.900-400 CC); ac yna anheddiad wedi'i wneud o ddau glawdd crwn, gyda thai crwn o garreg ynddo, yn dyddio o ganol yr Oes Haearn (c.400 -200 CC).


Llociau

Mynedfeydd

Tai

Llociau

Mae ein ffosydd ar ochr ddwyreiniol y lloc, wrth ochr y fynedfa, yn dangos bod yna ffos gynnar a ffens bren a oedd yn amgáu'r safle, a bod dau glawdd consentrig o bridd a cherrig wedi eu codi wedyn. Rhwng y cloddiau roedd pant cloddio, o'r lle codwyd y deunydd i wneud y cloddiau.



Mynedfeydd

Mae'r fynedfa i'r lloc ar ochr ddwyreiniol y safle. Roedd gan y lloc pren cyntaf giatws ac roedd llwybr o gerrig crynion yn mynd drwy'r fan hon. Roedd yr ail loc yn fwy cywrain a thrawiadol; roedd iddo ddwy fynedfa, drwy'r cloddiau mewnol ac allanol, ac roedd gan y lloc mewnol fynedfa a oedd yn troi i mewn. Roedd llwybr o gerrig crynion yn mynd drwyddynt. Roedd y llwybrau wedi'u gwneud o gerrig wedi'u gosod yn fras a oedd yn ddelfrydol i nifer fawr o anifeiliaid, certi a phobl fynd drostynt.


Yn y llun isod gwelir tyllau pyst ffens a giatws y lloc pren cynnar: mae pob un o'r bobl yn sefyll yn un o'r tyllau pyst.



Tai

Yn Ffos 3 cafwyd tystiolaeth am fan leiaf 2 o dai crwn o goed ac efallai 3 tŷ crwn carreg.

Roedd y tŷ pren cyntaf yn fawr, 12m ar draws, gydag aelwyd ganolog (gweler isod. Roedd yn dyddio o 753-410 cal. CC.



Roedd y tŷ crwn carreg, a oedd wedi'i gadw'n dda, yn 8m ar draws ac yn dyddio o 384-203 cal. CC. Roedd y wal ar ben yr aelwyd gynharach. Yn y llawr cafwyd hyd i dwll wedi'i leinio â cherrig a ddefnyddid i gadw bwyd.

Tai

Yn y llun hwn gwelir y twll wedi'i leinio â cherrig yn y tŷ crwn yn ffos 3.



Efallai mai'r darganfyddiad mwyaf annisgwyl ym Meillionydd oedd tŷ crwn carreg yn ffos tri, a oedd wedi cael ei adeiladu i mewn i'r clawdd allanol ar lawr y pant cloddio. Mae ei safle wrth ochr y fynedfa'n tystio iddo fod yn adeilad neilltuol bwysig. Cafodd ei adeiladu ar ôl y clawdd.




Tai

Ar lawr y tŷ crwn yn ffos 2 roedd cylch o byst pren i gynnal y to, cwter draenio ac aelwyd ganolog. Hefyd darganfuwyd troellen gwerthyd blwm (gweler y llun ar y dde), ynghyd â darn o grochenwaith o gyfnod diweddarach yn yr Oes Haearn.



Mae'r crochenwaith yn ddarganfyddiad cyffrous. Anaml y ceir hyd i ddarnau fel hyn o'r Oes Haearn yng ngogledd orllewin Cymru, lle mae'r priddoedd asid yn difetha arteffactau cyffelyb ac nid oedd y cymunedau'n defnyddio llawer o grochenwaith chwaith. Darganfuwyd arteffactau carreg ym mhob un o'r tai crynion, megis cerrig malu yd a morthwylion. Cafwyd hyd i dair troellen werthyd (gweler isod), ar gyfer nyddu gwlân, yn y tŷ crwn carreg yn ffos 3.



Tyllau Pyst



Yn y tai tyllwyd tyllau yn y llawr i ddal pyst pren i gynnal y to. Nid yw'r pyst pren ym Meillionydd wedi goroesi, ond mae'r tyllau a'r

cerrig a oedd yn eu cynnal i'w gweld o hyd (gweler y llun uchod). Mae archaeoleg arbrofol wedi dangos fod blaenau'r pyst pren yn cael eu llosgi am ychydig mewn tân, mae'n debyg i'w rhwystro rhag pydru. Byddai'r postyn wedyn yn cael ei roi yn y

twll gyda cherrig yn cael eu pacio o'i amgylch i'w ddal yn gadarn yn ei le. Byddai'r pyst yn helpu i gynnal to a gellid eu defnyddio hefyd i wneud wal i'r tŷ.



Tai Crynion wedi eu hail greu yn Sain Ffagen

Ail-greu Tai Crynion

Tua 2 filltir o Feillionydd mae Menter y Felin Uchaf, lle gellwch weld tai crynion o'r Oes Haearn wedi'u hail-greu.

<http://www.felinuchaf.org/>



Yn y lluniau gwelir tŷ crwn yn cael ei adeiladu, a hefyd y tu mewn i'r prif dŷ crwn, sy'n 10m o led.



Trosolwg, ffosydd 1 a 2

Cam 1 (lloc pren)

Lelog: palisâd pren cynnar a phorth.

Glas golau: llog cynnar gyda ffos o'i amgylch.

Glas tywyll: tŷ crwn pren, mae'n debyg o'r un cyfnod â'r palisâd pren.

Oren: arwyneb coblau o'r cyfnod cynnar.

Cam 2 (lloc carreg)


Coch: cloddiau mewnol ac allanol y cyfnod diweddaraf, yn ffurfio'r cylchfur dwbl.

Melyn: arwyneb coblau'r fynedfa.

Gwyrdd: Tŷ crwn carreg wedi'i adeiladu i mewn i'r clawdd allanol.



Arolwg o'r safle



Arolwg Radar Treiddio Daear, yn dangos y ffosydd a'r tai crynion o wahanol gyfnodau.

Dyddiau Agored

Mae'r dyddiau agored a'r ymweliadau gan ysgolion, a gynhelir bob haf, yn rhan o wyl bryngaerau, a gynhelir gyda Menter y Felin Uchaf, Partneriaeth Tirwedd Llŷn ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.

Mae'r digwyddiadau'n cynnwys gweithgareddau i'r gymuned gyfan.



Mynydd y Rhiw



©RCAHMMW Ffynhonnell: www.coflein.gov.uk

Mae Meillionydd ar lethrau de-orllewinol Mynydd y Rhiw, ond nid dyma'r unig safle cyn-hanesyddol ar y mynydd. Ar y llethrau ceir dau loc cylchfur dwbl arall, sef Conion a Castell Caeron, yn ogystal â bryngaer Creigiau Gwineu, ac mae olion cyn-hanes cynharach i'w cael ar ben y mynydd ei hun.

[Ffatri Fwyeill Neolithig](#)

[Henebion Claddu](#)

Ffatri Fwyeill Neolithig

Mae Ffatri Fwyeill Neolithig i'w chael ar ben Mynydd y Rhiw. Mae'r cyfnod Neolithig yn perthyn i c. 4000-2500 CC. Mae'r safle'n cynnwys pum pant crwn sy'n ymestyn mewn llinell o tua 90m ar hyd pen y mynydd. Y rhain yw'r chwareli Neolithig am gerrig Mynydd y Rhiw, a ddefnyddid i gynhyrchu bweill carreg wedi'u caboli ac offer eraill. Roedd bweill carreg yn arfau at ddefnydd bob dydd, ond roeddent hefyd yn bethau symbolaidd tra phwysig a ddefnyddid fel rhoddion cyfnewid ac mewn seremonïau a chladdedaethau. Yn ystod gwaith cloddio ddiwedd y 1950au, darganfuwyd arteffactau a gysylltir fel rheol â safleoedd Neolithig yn ardal Môr Iwerddon, er na chafwyd hyd i fweill wedi'u caboli.



@RCAHMMW

Fodd bynnag, darganfuwyd llawer o fweill wedi'u torri'n fras yn ystod y cloddiadau hynny a thrachefn yn 2007, pan gloddiwyd y safle drachefn gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Henebion Claddu

Ar lethrau isaf Mynydd y Rhiw ceir hefyd ddau fedd Neolithig (Tan y Muriau a Bron Heulog), yn ogystal â phedair carnedd gladdu o'r Oes Efydd ar ben y mynydd. Mae'r carneddau o'r Oes Efydd yn perthyn mae'n debyg i'r Oes Efydd Gynnar neu Ganol (c. 2000-1150 CC). Twmpathau o gerrig a phridd yn gorchuddio claddedigaethau neu amlosgiadau yw'r rhain. Nid yw'r carneddau Oes Efydd wedi cael eu cloddio, er bod y fwyaf tua 14m ar draws a 3m o uchder.

Mae'r ffatri fwyneill Neolithig, a'r casgliad o henebion claddu ar Fynydd y Rhiw, yn dangos fod gan y bryn hwn gysylltiadau seremonïol arbennig iawn yn y cyfnod cynhanesyddol. Parhaodd y bryn i fod yn dra phwysig yn y mileniwm cyntaf CC, fel mae'r clwstwr anarferol o bedwar lloc ar y llethrau yn tystio.



©RCAHMW

Ffynhonnell: www.coflein.gov.uk


Castell Odo

Mae Castell Odo'n debyg iawn i Feillionydd, ond mae'r cloddiau'n llawer mwy ac uwch gan fod yr heneb wedi'i chadw'n llawer gwell na



©RCAHMW Ffynhonnell: www.coflein.gov.uk

Meillionydd. Daeth cloddiadau Alcock ar draws anheddiad pren cynnar ynghyd â chasgliad o arteffactau cerameg o'r Oes Efydd Ddiweddar. Yn y lloc o'r Oes Haearn, gyda chloddiau o'i amgylch, ceir tystiolaeth o fan leiaf 8 o dai crynion.



Tre'r Ceiri

©RCAHMW Ffynhonnell:www.coflein.gov.uk

Mwy o Wybodaeth





Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty



www.ahne-llyn-acnb.org

PARTNERIAETH TIRLUN LLŷN LANDSCAPE PARTNERSHIP



Cwmni Cymuned Cymru
Welsh Communities



Cymdeithas Cŵn Gŵn Cymru
Coastal Community Council for Wales



Cwm Gwynedd
Gwynedd



PLAS GLYN-Y-WEDD



FELIN UCHAF



DANT Y CWM
Gwynedd



Colleg Meirion-Dwyfor



Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust



Cwmni Cymuned Cymru
Welsh Communities



Heritage Lottery Fund
LOTTERY FUNDED
ARLWNG GAN Y LOTERI



Club Hysglo
PWLLHELI
Sailing Club





Llyn AONB - <http://www.ahne-llyn-aonb.org/>